YSGOL BRYNREFAIL

LLWYDDIANT LLYWELYN WILLIAMS

Llongyfarchiadau calonnog i Llywelyn Williams disgybl blwyddyn 12, sy'n byw ym Mhontrug, ar gael ei ddewis a chwarae i dîm rygbi newydd Gogledd Cymru sef RGC1404.

Mewn gem gyffroes ar gae chwarae Clwb Rygbi Bangor enillodd tîm dan 17 RGC1404 gêm yn erbyn tîm dan17 Swydd Efrog o 13 pwynt i 7 pwynt.

Y mae Llywelyn yn chwarae yn yr ail reng ac fe gafwyd clod mawr am ddygnwch y tîm newydd yn erbyn eu cymar o Loegr.

Y mae pawb yn Ysgol Brynrefail yn ymfalchïo yn llwyddiant Llywelyn, ac yn cadw un llygad barcud ar y garfan genedlaethol er, gobeithio, gweld ei enw yno fuan.